Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

Future Generations Commissioner for Wales

Comisiynydd

Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru

Adroddiad Blynyddol 2017-2018

yn fras



Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw *bydd y byd yn ei wneud yfory*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Comisiynydd
Cenedlaethau'r Dyfodol
Cymru
Adroddiad Blynyddol 2017-2018

yn fras

Sicrhau newid i arweiniad ar arfarnu a
chynllunio trafnidiaeth Cymru (WelTAG)

Diwygio Polisi Cynllunio Cymru.
Mae **16 o FGCau** wedi rhoi blaenoriaeth i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn eu cynlluniau llesiant

Cynghori Llywodraeth Cymru
ar gyllidebu strategol

Herio Llywodraeth Cymru
ar **£1.4bn**
ar gyfer ffordd liniaru'r **M4**

Cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru
ar wella Trwyddedu Amgylcheddol

Rhoi cyngor i fargeinion dinesig
ar iechyd, ynni, a chysylltedd

Ymwelodd
15,927
o ymwelwyr newydd â'n gwefan
(crëwyd y wefan ym Mawrth 2017)

Wedi dylanwadu ar £5bn
o'r fasnachfraint rheilffyrdd

Wedi newid fframwaith
cynllunio'r GIG

Daeth ymwelwyr i'r wefan o Ffrainc, yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Nigeria, UDA

Dros 200 o lythyron yn 2017-1018
80% o lythyron yn berthnasol i gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf

Wedi cynghori Llywodraeth Cymru ar
£90 miliwn
o Grant Arloesol Tai

Rhaglen y Gallu i Greu
gyda **12 gwahanol sefydliad**

Wedi cynorthwyo'r Ysgrifennydd Parhaol
i herio polisïau Llywodraeth Cymru

Wedi cyfrannu **£60**
y mis £60 i'n siop gonestrwydd Masnach Deg

345
o amcanion llesiant wedi eu gosod gan gyrff cyhoeddus

300
o gynghorwyr wedi eu hyfforddi

Wedi dwyn i mewn £650k
o adnoddau ychwanegol

Mae **28%**
o staff y swyddfa'n siarad Cymraeg

250 o arweinyddion
y sector cyhoeddus wedi mynychu ein Anghynhadledd

Ymagwedd newydd
gan Swyddfa Archwilio Cymru tuag at asesu cyrff cyhoeddus

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Yn fras

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

ADRODDIAD

Gwn nad yw darllen adroddiadau blynyddol at ddant pawb - mae'n ddigon tebyg y byddai'n well gennych fynd ar eich beic, ymweld â'ch Nain, clirio eich ebyst gwaith neu wneud eich siopa wythnosol (yn ddelfrydol o fusnesau bach lleol). Ond os yr ydych eisiau gwybod ar amrantiad yr hyn yr wyf wedi bod yn ei wneud eleni gallwch ddarganfod hynny yn y fan hon.

Os yr ydych eisiau gwybodaeth bellach ar y gwaith hwn, gallwch glicio drwy bob adran a gallwch bob amser ddewis darllen yr adroddiad llawn os oes gennych wir ddiddordeb.

Mae gweithredu fel hyrwyddwr buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn dasg fawr a phwysig.

Rwyf wedi nodi fy mhedair ffordd o gyflawni hyn yn ystod fy nhymor yn fy swydd drwy weithio gydag ystod o bobl a sefydliadau.



> *"Dylem groesawu arloesedd a derbyn bod yn rhaid i ni, drwy wneud hynny, fod yn llai gwrthwynebus i risg. Rhaid i Lywodraeth, cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n eu harchwilio annog risg sy'n cael ei rheoli'n dda."*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pwrpas 1

Amlygu'r materion pwysig, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

Eleni rwyf wedi:

Gosod meysydd blaenoriaethol ar gyfer ffocysu fy ngwaith arnynt dros fy nghyfnod saith mlynedd. Y rhain yw tai, ynni, trafnidiaeth, sgiliau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a gwahanol ffyrdd o gadw pobl yn iach, megis presgreibio cymdeithasol. Gwneuthum hyn yn dilyn sgyrsiau gydag ystod o bobl a sefydliadau.

Herio Llywodraeth Cymru ar eu cynigion i wario £1.5bn ar ffordd liniaru'r M4 - nid wyf yn credu fod hyn yn fanteisiol i genedlaethau'r dyfodol.

Helpu Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y maent yn asesu cynlluniau trafnidiaeth yn y dyfodol (arweiniad WelTAG). Fel canlyniad mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y maent yn gwneud hyn, gan ffocysu ar sicrhau bod eu cynlluniau trafnidiaeth newydd yn cynorthwyo'r saith nod llesiant.

Sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n adlewyrchu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei chynllun datgarboneiddio - cwrdd â'r targed a osodwyd ganddynt o leihad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050.

Rhoi tystiolaeth i adolygiad Pwyllgor y Cynulliad ar dai carbon isel a herio'r Llywodraeth i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei defnyddio i asesu ceisiadau i'r Grant Arloesi Tai gwerth £90 miliwn.

Helpu i sefydlu canolfan sy'n rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus ar sut i daclo Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gan roi cyngor uniongyrchol i gyrff cyhoeddus ar hyn. Mae hyn wedi arwain 16 o'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn flaenoriaeth yn eu cynlluniau llesiant lleol.

Ymateb i gannoedd o lythyron a chysylltiadau oddi wrth y cyhoedd a rhoi sylw i ddau faes penodol y tynnwyd fy sylw tuag atynt, lle rwyf wedi darganfod eu bod yn cynrychioli materion systemig ehangach:

- **Trwyddedu amgylcheddol** - rwyf wedi gweithio gyda'r Llywodraeth a Chyfoeth Naturiol Cymru i nodi sut y gellir gwella'r system.
- **Cynllunio** - rwyf wedi gweithio gyda'r Llywodraeth i ail-ysgrifennu Polisi Cynllunio Cymru, y ddogfen sy'n rhoi'r cyd-destun trosfwaol i gynllunio yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at newid o bwys sy'n adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pwrpas 2

Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am yr effaith hirdymor

Eleni rwyf wedi:

Cynhyrchu Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol i roi arweniad i gyrff cyhoeddus ac eraill ar ddefnyddio'r Ddeddf. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio gan sawl sefydliad yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a'r rhai sy'n ymgyfrannu mewn Bargeinion Dinesig.

Rhoi cyngor manwl i 19 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a chyrff cyhoeddus ar amcanion llesiant a chynlluniau lleol sydd wedi eu cynorthwyo i osod yr amcanion cywir.

Parhau i gwrdd â'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoi cyngor i 11 ar bolisiau penodol a phrosiectau sydd wedi newid y ffordd y maent yn cael eu datblygu a'u cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys:

Caffael
Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n gwario dros £6 biliwn bob blwyddyn ar brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Rhoddais dystiolaeth i Bwyllgor y Cynulliad ar sut y gallai'r gwariant hwn wneud mwy er lles ein cymunedau, economi, amgylchedd a diwylliant, a bod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang. Fel canlyniad, mae Ysgrifennydd y Cabinet Mark Drakeford, AC, wedi cychwyn adolygiad.

Metro De Cymru a Masnachfraint Rheilffyrdd
Rhoddais gyngor i Drafnidiaeth Cymru ar ddatblygiad eu gweledigaeth a manyleb ar sut y bydd y Metro newydd a'r Fasnachfraint Rheilffyrdd yn gweithio. Roedd hyn yn cynnwys y modd y maent yn datblygu swyddi lleol, sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd cadwyni cyflenwi. Gwneuthum hefyd eu cysylltu â TriMet sydd wedi datblygu arfer gorau System Fetro ym Mhortland Oregon er mwyn dysgu o'u gwaith. Trwythodd y cyngor hwn eu proses gaffael gan wella'r hyn y maent yn disgwyl i'r gweithredydd newydd ei gyflawni.

Bargeinion Dinesig
Rwyf wedi sicrhau ymrwymiad oddi wrth Brifddinas Ranbarth Caerdydd i weithio'n agos gyda fy swyddfa i sicrhau bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei defnyddio yn eu cynlluniau adfywio. Mae Bargen Ddinesig Caerdydd a Bae Abertawe'n defnyddio fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu gwaith.

Cyllidebu strategol Llywodraeth Cymru
Rwyf wedi cynghori'r Llywodraeth ar ble mae angen gwella'u proses gyllidebu'r flwyddyn nesaf er mwyn defnyddio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn well. Ochr yn ochr â hyn rwyf wedi eu herio i gytuno ar ddiffiniad o 'atal' a fyddant yn ei ddefnyddio i fonitro faint o arian y maent yn ei wario ar wasanaethau ataliol. Mae'r diffiniad hwn ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu ar gyfer ei ddefnyddio yng nghylch cyllideb y flwyddyn nesaf.

Gweithio gyda'r Ysgrifennydd Parhaol
Rwyf hefyd wedi gweithio gyda Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, wrth iddi gynorthwyo'r newid mewnol hwn, sydd wedi cynnwys cyfranogi mewn digwyddiadau staff a datblygu set o gwestiynau a fydd yn cael eu defnyddio i brofi cynigion polisi newydd.

Fframwaith gynllunio'r GIG
I helpu GIG i osod cynlluniau sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rwyf wedi gweithio gyda nhw i'w helpu i adolygu eu fframwaith cynllunio yn cynnwys her arbennig ar ymagweddau hirdymor ac ataliol. Nawr mae'n ofynnol i gael ystyriaeth llawer mwy manwl ar sut mae'r Ddeddf yn cael ei defnyddio.



> *"Rwyf hefyd wedi gosod yn ei lle fy strategaeth ar gyfer cyflawni fy nyletswydd i fonitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant yn cael eu cyflawni gan gyrff cyhoeddus"*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pwrpas 3

Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen

Eleni rwyf wedi:

Gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i asesu'r cynnydd gwirioneddol mae cyrff cyhoeddus wedi ei wneud a thrwytho'u hymagwedd tuag at archwilio, gan geisio sicrhau bod hyn yn sbarduno canlyniadau da yn hytrach nag ymateb ticio-blychau. Rydym wedi cytuno i weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein dyletswyddau sy'n wahanol ond yn gyflenwol o dan y Ddeddf. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud bod fy ymgyfraniad wedi "helpu i newid natur y broses archwilio".

Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu hyfforddiant i dros 300 o gynghorwyr etholedig newydd.

Sefydlu fy Rhaglen y Gallu i Greu
- rhaglen gydweithredol sy'n cydweithio gyda, ac wedi ei chyd-ariannu gan, 12 o wahanol sefydliadau ar draws Cymru i archwilio ac egluro goblygiadau ymarferol a ddaw i wasanaethau cyhoeddus wrth facsimeiddio eu nodau llesiant. Mae'r rhaglen hon yn ei chyfnod cynnar ond mae'n datblygu cyngor ymarferol a chymorth i gyrff cyhoeddus.

Wedi treialu ymagwedd at Labordai Byw
Rwy'n dymuno datblygu dull a fydd yn galluogi cyrff cyhoeddus i 'gerdded drwy' fater a dysgu sut i ddefnyddio lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n treialu'r ymagwedd hon gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr drwy edrych ar fater gordewdra mewn plant a mamau a gwasanaethau cleifion allanol.

Sefydlu Cwmwl o Arloeswyr
Bydd hon yn rhwydwaith ar gyfer cysylltu hyrwyddwyr cenedlaethau'r dyfodol ac arloeswyr yn eu maes, e.e. academyddion, ymarferwyr, pobl a phrofiadau bywyd a fydd â'r gallu a'r parodrwydd i gynghori a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddatblygu syniadau newydd a datrysiadau i gwrdd â'u hamcanion llesiant.

Amlygu'r gwaith y mae Cymru'n ei wneud ar draws y byd
Mae yna lawer iawn o ddiddordeb yn ein deddfwriaeth sy'n torri tir newydd a llawer o wledydd â chanddynt ddiddordeb mewn datblygu model tebyg. Drwy gadeirio'r Rhwydwaith Ryngwladol o Sefydliadau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi trwytho polisi a gwaith ymgyrchu ar genedlaethau'r dyfodol yn yr Iseldiroedd, Awstralia, y Ffindir, Sbaen, Seland Newydd a Hwngari.

Gweithio gyda Chomisiynwyr eraill
Mae Comisiynwyr eraill yn eistedd ar fy mhanel ymgynghori. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, i ddatblygu pecyn cymorth a fydd yn helpu cynghorau ac ysgolion i wneud hawliau plant a datblygu cynaliadwy'n rhan annatod o'u gwaith.

> *"Ein hamcan yw eu hysbrydoli a rhoi enghreifftiau ymarferol o'r modd y gallant gyflawni eu nodau llesiant"*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pwrpas 4

Gweithredu yn ogystal â thrafod ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Eleni rwyf wedi:

Sicrhau bod y pum dull o weithio a nodir yn y ddeddfwriaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd yr wyf yn rhedeg fy swyddfa. Yn arbennig, mae fy ymagwedd tuag gydweithredu nid yn unig wedi cynnwys ymgyfraniad cannoedd o wahanol sefydliadau yn fy ngwaith, ond hefyd wedi dwyn gwerth £650k o adnoddau staff ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rwyf hefyd wedi cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant yn cynnwys:

Cymru Lewyrchus

- Rwyf yn gyflogydd Cyflog Byw.
- Rwyf yn gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i recriwtio Prentis i'r swyddfa mewn rôl gynorthwyol.
- Rwyf wedi rhoi cyfleoedd i nifer o fyfyrwyr i sicrhau profiad gwaith ymarferol drwy leoliadau a dalwyd amdanynt. Mae'r rhain wedi cyfrannu at ein gwaith ar Fargeinion Dinesig, fy adolygiad o ohebiaeth gyhoeddus a dadansoddiad o 345 amcan llesiant.
- Rwyf yn cynorthwyo busnesau bach lleol, er enghraifft, drwy gontractau glanhau ac arlwyo.
- Rwy'n annog fy nhîm i arloesi a rhannu syniadau da, er enghraifft, mae ein cynorthwyydd contractau Digidol wedi datblygu bwletin wythnosol poblogaidd Abby's Apps'.

Cymru Gydnerth

- Sefydlu gwaelodlin o allyriadau fy swyddfa yn cynnwys olrhain dulliau o deithio i'r gwaith - mae data cychwynnol yn dangos bod dros dri chwarter o fy nhîm yn teithio'n rheolaidd i'r gwaith drwy drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol.
- Ymrwymo i wrthbwyso fy allyriadau drwy wneud rhoddion i elusennau perthnasol.
- Cymryd camau i leihau allyriadau carbon o deithio yn cynnwys prynu beic i'r swyddfa ar gyfer mynychu cyfarfodydd lleol.
- Sefydlu cynadledda fideo a chynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng Skype a FaceTime i leihau'r angen i fy nhîm a minnau i deithio.
- Wedi newid fy narparydd trydan i Ecotricity i roi i ni ynni adnewyddol gant y cant. Wrth symud ymlaen ni fydd y trydan a ddefnyddir yn fy swyddfa'n dod o danwydd ffosil.

Gwastraff:

- Wedi lleihau lefel yr argraffu a wneir gan fy staff.
- Wedi gweithredu polisi Lleihau, Ail ddefnyddio ac Ailgylchu llym. Hyd yn hyn rwyf wedi prynu 4 eitem o ddodrefn ar gyfer fy swyddfa newydd. Cafwyd y rhan fwyaf drwy uwchgylchu adnoddau a siopau elusen gan gyfyngu ar yr angen i brynu rhai newydd - mae hyn nid yn unig yn cefnogi elusennau lleol ond yn arbed £17,019 a 2.24 tunnell o allyriadau carbon deuocsid.
- Compostio ac ailgylchu gwastraff fy swyddfa.
- Gwahardd cwpanau plastig untro o amgylchedd y swyddfa.



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Cymru Iachach

- Clwb rhedeg/ymarfer corff amser cinio wedi ei drefnu gan y staff eu hunain.
- Dosbarth yoga wythnosol yn gynnar yn y bore wedi ei ariannu gan y cyfranogwyr.
- Amser Ffrwythau - archebu ffrwythau'n ddyddiol fel y gallwn fwyta ein pum bob dydd.
- Trefnu sesiwn hyfforddi 'Ymwybyddiaeth Feddylgar/Mindfulness'..
- Wythnos o weithgareddau adeg Wythnos Iechyd Meddwl o dan arweiniad aelod o'n staff.

Cymru fwy Cyfartal

- Cynorthwyo rhieni sy'n gweithio drwy bolisi unrhyw amser unrhyw le.
- Dyfarniadau cyflog yn adlewyrchu cynnydd uwch i staff ar yr incwm isaf.
- Bydd adroddiad blynyddol eleni'n cael ei gynhyrchu mewn laith Arwyddion Prydeinig a fersiynau hawdd eu darllen.

Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

- Te, coffi a siwgr sy'n cael eu defnyddio yn y swyddfa yn nwyddau Masnach Deg ardystiedig. Rwyf wedi cyflwyno siop gonestrwydd Masnach Deg sy'n cyfrannu ar gyfartaledd £60 y mis i gefnogi busnes moesol lleol a ffermwyr rhyngwladol.
- Rydyn ni wedi datblygu dealltwriaeth o effaith defnyddio Masnach Deg drwy glywed yn uniongyrchol oddi wrth gynhyrchwyr coffi o Uganda a'r India am effaith y mudiad Masnach Deg ar eu bywydau.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Mae 28% o fy nhîm yn siaradwyr Cymraeg hyfedr neu rugl a deuddeg o gydweithwyr yn dysgu.
- Rwyf wedi trefnu gwersi dysgu Cymraeg i ddechreuwyr a siaradwyr uwch sy'n dymuno gwella lefelau eu hyder.

Cymru Gydlynol

- Polisi i gynorthwyo gwirfoddoli'n cael ei ddatblygu.
- Gan gydnabod problem digartrefedd yng Nghanol Dinas Caerdydd mae ein tîm wedi dewis cyfrannu arian i elusennau digartrefedd a rhannu eu myfyrdodau ar y mater hwn mewn blog.

> *"Beic rhad o Hyfforddiant Beicio Cymru oedd ein beic swyddfa, a hyn yn golygu ein bod yn uwchgylchu yn ogystal â chynorthwyo menter leol gymdeithasol. Rhoddwyd yr holl gyfarpar i ni gan Sustrans neu aelodau'r staff. Mae staff yn ei ddefnyddio i deithio i gyfarfodydd, gan arbed yr amser a gymerai i ddefnyddio dulliau eraill o deithio. Mae teithio i gyfarfodydd ar feic hefyd yn gwrthbwyso ôl troed carbon sy'n cael ei achosi drwy deithio mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus"*
>
> **Clare Johnson,**
> Stakeholder Officer

Ein nodau llesiant



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Pa effaith a gafodd hyn i gyd?

Mae fy adroddiad blynyddol yn nodi sut yr wyf wedi defnyddio fy mhwerau yn 2017-2018 - mae'n dasg Dafydd a Goliath i mi a fy nhîm bychan wrth i ni annog newid mawr mewn 44 corff cyhoeddus a 19 o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Fel canlyniad rydyn ni wedi llwyddo i:

1. **Fframio dadl a chael materion ar yr agenda** (er enghraifft, mewn perthynas ag ymagweddau ataliol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yr M4, trwyddedu amgylcheddol, bargeinion dinesig a drwy ohebiaeth oddi wrth y cyhoedd.

2. **Annog ymrwymiadau oddi wrth Weinidogion, Llywodraeth ac eraill** (er enghraifft parthed caffael, cynllunio GIG, yr Ysgrifennydd Parhaol a'r tendr am Fetro De Cymru).

3. **Sicrhau newid cyfundrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd o'i chwmpas hi** (er enghraifft, mewn perthynas ag archwilio, monitro ac asesu'r Ddeddf, gyda'r Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a chynlluniau'r GIG.

4. **Effeithio ar newid polisi ac ymrwymiadau mewn nifer o sefydliadau** er enghraifft, Cynllunio Polisi Cymru, amcanion llesiant a gyhoeddwyd gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, ar yr agenda datgarboneiddio, yn arbennig Gynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru; mewn cyllidebu strategol, y bargeinion dinesig, iechyd a chynllunio hirdymor.

5. **Dylanwadu ar ymddygiad ymarferol mewn eraill ac yn fy nhîm.**((er enghraifft, fel canlyniad i fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol; y partneriaethau niferus yn y Gallu i Greu; hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr newydd; gohebiaeth gyhoeddus, sefydliadau iechyd a'r cynllun peilot Labordai Byw).

Mae llawer mwy i'w wneud ac rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda phobl y flwyddyn nesaf (2018-2019) i sbarduno'r newid hwnnw. Os hoffech ymgyfrannu neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth (rwyf yn awr yn cyhoeddi cylchlythyr rheolaidd) cysylltwch â ni.

Dyma ddolen i fy Adroddiad Atebolrwydd a Datganiad Ariannol

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru